CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2017/18

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Alun Roberts**
**Grŵp: Plaid Cymru** **Ward: Seiriol**

## 1 - Rôl a Chyfrifoldeb

| **Rhwng Mai 2017 a Mawrth 2018, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd** | **Nifer a fynychwyd** |
|---|---|---|
| Cyngor | 9 | 8 |
| Pwyllgor Apeliadau | 0 | 0 |
| Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | 6 | 5 |
| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | 11 | 11 |
| Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | 6 | 5 |
| Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) | 2 | 1 |
| Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. Gall trefniadau cyflogaeth Aelod hefyd effeithio ar lefelau presenoldeb.<br><br>*Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.* | | |

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 1 o'r 6 cyfarfod, hefyd Pwyllgor Adfywio'r Ymddiriedolaeth ac wedi mynychu 0 o'r 2 a drefnwyd

| **Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:** | **Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd** | **Nifer a fynychwyd** |
|---|---|---|
| Llywodraethwr – Ysgol Gynradd Biwmares | 8 | 7 |

## 2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwyf yn aelod o Gyngor Cymuned Cwm Cadnant a byddaf yn mynychu cyfarfodydd y Cyngor yn fisol. Yn ogystal, byddaf yn mynychu cyfarfodydd misol Cyngor Tref Biwmares a Chynghorau Cymuned Llanddona a Llangoed mor aml â phosibl. Byddaf yn paratoi ac yn adrodd yn ôl i'r cynghorau hyn mor aml â phosibl

Wedi bod yn falch o roi cymorth a chyngor i drigolion y ward. Rwyf wedi ceisio bod ar gael un ai dros y ffôn neu drwy e-bost. Wedi helpu etholwyr a'u teuluoedd mewn gwahanol ffyrdd, e.e.

- Cynllunio – wedi ymateb i geisiadau i gyfathrebu gyda'r adran gynllunio, un ai i wrthwynebu neu i ddarganfod fwy o fanylion.
- Priffyrdd - ymholiadau ynglŷn â nifer o faterion yn ymwneud a phroblemau gyda lonydd, parcio ayb.
- Amgylchedd - Delio hefo cwynion am ddiffyg casglu gwastraff neu wastraff wedi ei adael ar ochr lonydd ayb.
- Tai – Cysylltu gyda'r adran dal i egluro sefyllfa person a oedd yn amlwg angen help.

Mae llawer o fy amser y flwyddyn hon wedi bod yn cyfarfod etholwyr a mynychu cyfarfodydd cyhoeddus yn ymwneud a moderneiddio addysg gynradd yn ardal Biwmares, Llandegfan a Llangoed.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Fel aelod ac is-gadeirydd o'r Panel Sgriwtini Adolygu Cynnydd Ysgolion, rwyf wedi cael y fraint o gyfarfod nifer o Benaethiaid Pennaeth ysgolion Môn a hefyd Cadeiryddion Llywodraethwyr. Teimlaf fy mod gyda llawer i gynnig i'r panel arbennig hwn gan fy mod yn gyn athro fy hun.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i darparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

| | |
|---|---|
| Cyflwyniad i Wasanaethau'r Awdurdod | 11/05/2017 |
| Cyflwyniad i Wasanaethau'r Awdurdod | 18/05/2017 |
| Sesiwn Briffio – Cynllun Corfforaethol a'r Côd | 18/05/2017 |
| Hyfforddiant IPad | 31/05/2017 |
| Y Cyfansoddiad | 05/06/2017 |
| Hyfforddiant Diogelu | 07/07/2017 |
| Hyfforddiant Materion Cynllunio | 21/07/2017 |
| Archwilio effeithiol | 15/09/2017 |
| Cyflwyniad i'r Archwilydd Cyffredinol | 21/09/2017 |
| Cwestiynu'n effeithiol yn Sgriwtini | 04/12/2017 |
| Cyflwyniad i e-ddysgu | 12/01/2018 |
| Cyflwyniad i e-ddysgu | 12/01/2018 |
| Sesiynau Briffio Aelodau ( 10 allan o 12 ) | Mai 2017 – Mawrth 2018 |
| *Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.* | |

**5 – Gweithgareddau a Materion Eraill**

Rwyf wedi bod yn falch o roi cymorth i fy nghymuned. Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn daith ddysgu enfawr, ond yn daith yr wyf wedi ei mwynhau. Edrychaf ymlaen at roi cymorth a chefnogaeth i drigolion fy ward yn y dyfodol.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=939&LLL=1

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Alun Roberts** | **Ebrill 2018** |